## Hysbysiad Preifatrwydd Trafnidiaeth o’r Cartref i'r Ysgol a Thrafnidiaeth Gyhoeddus

Mae'r hysbysiad hwn yn egluro pa ddata personol (gwybodaeth) sydd gennym amdanoch chi, sut rydym yn ei gasglu, sut rydym yn ei ddefnyddio a sut y gallwn rannu gwybodaeth amdanoch chi. Mae'n ofynnol i ni roi'r wybodaeth hon i chi o dan y gyfraith diogelu data.

### Pwy Ydym Ni:

Mae Cyngor Bro Morgannwg (CBM) yn casglu, yn defnyddio ac yn gyfrifol am wybodaeth bersonol benodol amdanoch chi. Pan fyddwn yn gwneud hynny, rydym yn cael ein rheoleiddio o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) ac rydym yn gyfrifol fel 'rheolydd' yr wybodaeth bersonol honno at ddibenion y cyfreithiau hynny.

### Gwybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu a’i defnyddio:

#### Gwybodaeth a gesglir gennym ni:

Wrth alluogi mynediad at gynlluniau trafnidiaeth, efallai y byddwn yn casglu'r wybodaeth bersonol ganlynol pan fyddwch yn ei rhoi i ni:

- enw
- cyfeiriad
- manylion cyswllt
- dyddiad geni
- manylion unrhyw anghenion ychwanegol sydd gennych neu wybodaeth arall sydd ei hangen i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarparwn yn addas i chi
- gwybodaeth ariannol benodol (os oes angen i chi wneud taliad i'r gwasanaeth gael ei ddarparu)
- gwybodaeth mewn perthynas â mynd ar gerbydau (tocynnau trafnidiaeth ysgol)

Rydym hefyd yn cael gwybodaeth bersonol o’r ffynonellau canlynol:

- adrannau eraill CBM, megis yr adran Gwasanaethau Ysgolion
- sefydliadau addysgol

### Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol:

#### Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i:

- hwyluso trefniadau trafnidiaeth angenrheidiol gan gynnwys defnyddio cardiau a chodau trafnidiaeth
- cynhyrchu neu amnewid tocynnau teithio
- derbyn taliad mewn perthynas â ffioedd a chostau
- gall data gael ei brosesu’n awtomatig, er enghraifft pan fyddwch yn cyflwyno cais drwy'r rhyngrwyd a phan fydd tocyn teithio yn cael ei gynhyrchu.

#### Am faint y caiff eich data personol ei gadw?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am y cyfnod y darperir y gwasanaeth teithio, yn ogystal â blwyddyn neu yn unol â'n hamserlen gadw gyhoeddedig.

At ddibenion mynd ar gerbyd, yna

- Mae data personol dysgwyr ar gyfer llwybrau y maent wedi'u teithio yn cael ei gadw am 7 diwrnod
- Data llwybr dienw 8 mlynedd

## Y rhesymau dros gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol:

Ar gyfer darparu a rheoli'r gwasanaeth trafnidiaeth ysgol, yna y sail gyfreithiol y dibynnir arni yw cyflawni tasgau cyhoeddus er budd ehangach y cyhoedd, a'r rhai sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd.

Mae angen i chi roi data personol a/neu sensitif i'n galluogi i hwyluso eich defnydd o'r gwasanaethau trafnidiaeth a ddarperir gan CBM.

## Rhannu data personol:

Rydyn ni'n rhannu'r canlynol yn rheolaidd

- data personol lle bo angen gwneud trefniadau teithio priodol neu i alluogi defnydd o wasanaethau trafnidiaeth a ddarperir gan CBM
- Data personol sensitif lle bo angen sicrhau bod y trafnidiaeth a ddarperir yn diwallu eich anghenion penodol

**Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â:**

- darparwyr trafnidiaeth
- gweithgynhyrchwyr cardiau teithio trydydd parti (fel Trafnidiaeth Cymru)
- sefydliadau addysgol
- cyflenwyr meddalwedd trydydd parti i'r Cyngor

Drwy rannu data rydym yn gallu gwneud trefniadau teithio priodol. Am restr o'n cyflenwyr trydydd parti, e-bostiwch schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk gan ddyfynnu cais GPDR. Byddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol ag ymarferwyr gorfodi'r gyfraith neu awdurdodau eraill os caniateir hynny neu os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith berthnasol.

## Cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel

Mae gennym fesurau diogelwch technegol a gweithredol priodol ar waith i atal gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, ei defnyddio neu ei chyrchu mewn modd anawdurdodedig. Rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r rhai sydd ag angen busnes gwirioneddol i'w chael. Bydd y rhai sy'n prosesu eich gwybodaeth yn gwneud hynny mewn modd awdurdodedig yn unig a byddant yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd.

Mae gennym hefyd weithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw achos posibl o dorri diogelwch data. Byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reolydd perthnasol am unrhyw achos posibl o dorri diogelwch data lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Am fwy o fanylion am eich hawliau gwybodaeth a sut mae Cyngor Bro Morgannwg yn prosesu data personol, ewch i Hysbysiad Preifatrwydd y Wefan (bromorgannwg.gov.uk)

**Manylion cyswllt**

Cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn dpo@valeofglamorgan.gov.uk i arfer unrhyw un o'ch hawliau gwybodaeth, neu os oes gennych gŵyn ynghylch pam y casglwyd eich gwybodaeth, sut y cafodd ei defnyddio neu am ba hyd yr ydym wedi'i chadw.

Yr awdurdod goruchwylio yn y DU ar gyfer materion diogelu data yw'r Comisiynydd Gwybodaeth a gellir cysylltu ag ef ar 029 2067 8400 neu drwy e-bost wales@ico.org.uk

**Dyddiedig 25/04/2024**